

# Gorwelion

Cylchlythyr i Gefnogwyr **Met Caerdydd**

Rhifyn 10 | Haf 2015

## *Rhoddion yn galluogi myfyrwyr Met Caerdydd i rannu ymchwil sy'n newid bywydau yn y gynhadledd ARTERY yn Krakow*

Mae eich rhoddion i'r Gronfa Ddatblygu wedi galluogi dau fyfyrwr i fynychu'r gynhadledd ARTERY ryngwladol yn Krakow i gyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil eu trydedd flwyddyn, a gyflawnwyd ganddynt fel rhan o'u hastudiaethau israddedig mewn Biofeddygaeth Chwaraeon a Maetheg. Aeth y myfyrwyr, fel Matthew Armstrong a Niamh Chapman, i'r gynhadledd fel rhan o Grŵp Ymchwil Ffisioleg Fasgwlaidd eu goruchwyliwr, y Dr Barry McDonnell. Y gynhadledd hon a gydnabyddir yn rhyngwladol yw cynhadledd flaenllaw'r byd ym maes ffisioleg glinigol sy'n gysylltiedig â Phwysedd Gwaed Uchel a Chlefyd Fasgwlaidd.

Parhad ar Dudalen 1



THE QUEEN'S  
ANNIVERSARY PRIZES  
FOR HUMAN AND NATURAL SCIENCES  
2015

BUDDSODDWR | Arian  
MEWN POBL

150  
Years  
Mlynedd  
Cardiff  
Met  
Caerdydd



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

Rydym yn ymrwymedig i leihau effaith amgylcheddol ein gweithgareddau. Os byddai'n well gennych dderbyn y cylchlythyr hwn drwy e-bost, rhowch wybod i ni.

Cylchlythyr Gorwelion yn Saesneg:  
[www.cardiffmet.ac.uk/horizons](http://www.cardiffmet.ac.uk/horizons)

Os hoffech gysylltu â ni, gallwch anfon e-bost i: [developmentoffice@cardiffmet.ac.uk](mailto:developmentoffice@cardiffmet.ac.uk)  
neu ffonio 029 2020 1590.

Neu, ysgrifennwch atom yn: Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrywyr, Campws Cyncoed, Cyncoed Road, Caerdydd, CF23 6XD

Am ragor o wybodaeth am ein gweithgareddau codi arian, ewch i'n gwefan: [www.cardiffmet.ac.uk/supportus](http://www.cardiffmet.ac.uk/supportus)



Cofiwch fod modd ein gweld ar:

 [www.linkedin.com](http://www.linkedin.com)

 [www.facebook.com/cardiffmetalumni](http://www.facebook.com/cardiffmetalumni)

 [www.twitter.com/CMetAlumni](http://www.twitter.com/CMetAlumni)



Croeso i Gorwelion! Os ydych yn darllen hwn am y tro cyntaf, efallai ar ôl rhoi rhodd tuag at ddatblygiadau chwaraeon Campws Cyncoed, croeso i'n cymuned o gefnogwyr Met Caerdydd!

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar nifer o brosiectau a fu'n bosibl oherwydd eich rhoddion chi. Roedd myfyrywyr o'r Ysgol Gwyddorau lechyd wedi gallu teithio i Krakow er mwyn rhannu ymchwil biofeddygol gyffrous y maent wedi bod yn gweithio arni fel rhan o'u graddau israddedig. Roeddem wedi gallu cynnal prosiect Athroniaeth Gymunedol, y cyntaf o'i fath yng Nghaerdydd. Mae eich rhoddion

wedi helpu myfyrywyr sy'n entrepreneuriaid newydd i ddechrau a thyfu eu busnesau bach, ac rydych yn cefnogi myfyrywyr o bob disgyblaeth sydd mewn argyfwng ariannol drwy'r Gronfa Caledi Myfyrywyr.

Mae'r Gronfa Ddatblygu yn bwysig iawn er mwyn creu'r cyfleoedd hyn ac ni fyddem yn gallu cyflawni ein dyheadau heb yr arian sydd ar gael drwy gefnogaeth ein rhoddwyr hynod hael.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am sut rydych yn gwneud gwahaniaeth. Os hoffech alw draw am goffi ac ymweld â'r campws, byddem wrth ein bodd yn eich gweld.

Diolch!

Andrew Walker  
Cyfarwyddwr Ymgysylltu Allanol  
[awalker@cardiffmet.ac.uk](mailto:awalker@cardiffmet.ac.uk)

## Cymorth Rhodd a Rhyddhad Treth i Roddwyr

*giftaid it*

Cofiwch os ydych yn drethdalwr y DU, gall y Brifysgol hawlio Cymorth Rhodd. Bydd y cynllun hwn gan y llywodraeth yn golygu bod eich rhodd yn werth 25% yn fwy i ni ond ni fydd yn golygu cost ychwanegol i chi!

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw llenwi'r adran Cymorth Rhodd o'r ffurflen rodd neu rhowch wybod i ni ar lafar eich bod am i ni hawlio Cymorth Rhodd. Os ydych yn drethdalwr Cyfradd Uwch, gallwch hefyd ofyn am ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd sylfaenol a'r gyfradd uwch pan fyddwch yn cyflwyno eich ffurflenni treth. Gallwn hefyd dderbyn rhoddion o gyfranddaliadau, gwarannau a buddsoddiadau eraill sydd hefyd yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth.

# Eich Cefnogaeth i Fyfyrrwyr: Ymchwilyr y dyfodol

## ...Parhad o'r dudalen flaen

Roedd y cyflwyniad a'r rhwydwaith agos o academyddion o'r radd flaenaf yn y gynhadledd benodol hon wedi galluogi'r myfyrwyr i gwrdd a siarad yn agored am eu hymchwil mewn amgylchedd proffesiynol ond cyfeillgar ac mae wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad gyrfa'r ddau fyfyrwr. O ganlyniad i fynychu'r gynhadledd derbyniodd y ddau fyfyrwr gynigion PhD mewn prifysgolion byd-enwog (Sefydliad Menzies, Prifysgol Tasmania, Awstralia a Choleg Kings Llundain, y DU).

"Cafodd y ddau fyfyrwr brofiad amhrisiadwy a gweledd rhyngwladol sylweddol o ganlyniad i'r cyfle hwn a hoffent ddiolch i'r holl gyn-fyfyrrwyr sydd wedi cefnogi'r Gronfa Ddatblygu er mwyn galluogi hyn i ddigwydd."

Dr Barry McDonnell

Myfyrwyr Biofeddygaeth Chwaraeon, Matthew Armstrong a Niamh Chapman yn cyflwyno canfyddiadau eu prosiect gwaith ymchwil trydedd flwyddyn yn y gynhadledd ARTERY ryngwladol yn Krakow, Gwlad Pwyl, Hydref 2015.



### Maes ymchwil Matthew:

Wrth i ni fynd yn hŷn, mae ein rhydweliâu yn heneiddio ac yn caledu sy'n arwain at bwysedd gwaed uwch a risg o drawiad ar y galon a strôc. Mae nifer o ffactorau yn

cyflymu'r broses heneiddio hon ac yn effeithio ar anystwythder rhydweliâu e.e. gordewdra a chlefydau fel diabetes, lle mae gan unigolion lefelau uchel o enyniad yn eu gwaed. Testun gwaith ymchwil Matthew oedd p'un a oedd arwydd o enyniad, a ddarganfuwyd yn ddiweddar, sy'n bresennol mewn gwaed dynol (derbynnydd IL-6 hydawdd) yn gysylltiedig â chynnydd mewn anystwythder rhydweliâu ymhlith unigolion ifanc. Mae canfyddiadau newydd Matthew yn awgrymu y gallai crynodiadau uchel o'r arwydd gwaed hwn ymhlith pobl ifanc fod yn arwydd o wendid sylfaenol i enyniad sy'n gysylltiedig ag anystwythder rhydweliâu.

"Mae'r profiad ges i yng nghynhadledd ARTERY yn Krakow wedi bod yn amhrisiadwy.

Hoffwn ddiolch i bawb y gwnaeth eu rhoddion ariannu'r daith. O ganlyniad uniongyrchol i'r gynhadledd gobeithio y byddaf yn dechrau fy PhD y flwyddyn nesaf. Diolch!"

Matt Armstrong



### Niamh's area of research:

Mae anystwythder yn y system rhydweliol yn un o ganlyniadau anochel y broses heneiddio. Fodd bynnag, dangoswyd bod cynnydd mewn gweithgarwch

corfforol yn oedi'r broses anystwytho hon.

Dangosodd gwaith Niamh, hyd yn oed ar oedran cynnar, bod lefelau uwch o weithgarwch corfforol yn cael effaith fuddiol ar iechyd rhydweliâu. Yr hyn oedd hyd yn oed yn fwy gwreiddiol oedd ei bod wedi arsylwi ar fesurau o iechyd rhydweliâu dros 24 awr, sy'n fesur mwy cadarn o iechyd gwirioneddol rhydweliâu o'i gymharu â darlenniad untro sy'n amrywio yn dibynnu ar ba amser o'r dydd y caiff ei gymryd. Bydd y ffordd hon o asesu iechyd fasgwlar dros 24 awr yn cael effaith bellgyrhaeddol ar ein dealltwriaeth o'r cydberthnasau rhwng ymarfer corff, heneiddio a rheoli clefydau yn y dyfodol.

"Hoffwn ddiolch yn fawr i'r cyn-fyfyrrwyr yr oedd eu rhoddion wedi gwneud hyn oll yn bosibl. Rhoddodd eich haelioni gyfle i mi sydd wedi trawsnewid fy nghyfleoedd gyrfa ac wedi fy ngwneud yn gyffrous iawn ynglŷn â'r dyfodol - diolch".

Niamh Chapman

# Diweddaru un o gampfeydd hynaf Met Caerdydd, diolch i roddion

Dros haf 2015 adnewyddwyd Campfa Syd Aaron yng Nghyncoed. Ar ôl cael ei ddefnyddio'n ddyddiol am flynyddoedd fel cyfleuster addysgu ar gyfer myfyrwyr israddedig ac fel cyfleuster hyfforddi i blant sy'n mynychu'r academiâu iau, roedd angen diweddaru ac ailaddurno'r gampfa a'i chyfarpar.

Gosodwyd ffenestri newydd a phaentiwyd y waliau; gwnaeth hyn wella'r lefelau golau a gwres yn y gampfa. Ymhlith y cyfarpar newydd roedd pwll hanner crog gyda sbwng rhydd a phadin wal newydd, cylchoedd newydd, trawst cystadlu, trac gymnasteg chwyddadwy a matiau glanio newydd.

Diolch i'ch rhoddion hael mae'r gampfa a enwyd ar ôl un o



ddarlithwyr mwyaf enwog Met Caerdydd bellach yn gyfleuster gymnasteg arbenigol. Mae ganddi'r holl gyfarpar i ddiwallu anghenion addysg hyfforddi a galluoedd

gymnasteg penodol myfyrwyr o fewn yr Ysgol Chwaraeon, sgwad Gymnasteg Met Caerdydd a'r Academi Gymnasteg Iau.

## Mae gan y Gampfa:

- Ardal llawr sbring llawn 12m x 12m
- Trac gymnasteg (14m), trampolîn, bwrdd neidio a bariau cyfocrog (i mewn i'r pwll sbwng)
- Bar uchel a chylchoedd (dros y pwll sbwng)
- Bariau Anghymesur (dros ardal lano a ddefnyddir mewn cystadlaethau)
- Trawst (maint cystadlu llawn and ac ar y llawr)
- Sbringfyrdau a thrapetau
- Ystod lawn o fatiau glanio a modiwlau sbwng i ddatblygu sgiliau ymarferol





Cyfranogwyr Athroniaeth Gymunedol gyda Jan Huyton, tiwtor Met Caerdydd

# Eich cefnogaeth i'r gymuned: dod ag athroniaeth i Gaerdydd

Mae rhodd ddiweddar wedi galluogi Tim Ehangu Mynediad Met Caerdydd i ddatblygu prosiect Athroniaeth Gymunedol arloesol er budd ein cymuned leol.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau y gall unrhyw un sydd â'r penderfyniad, y sgiliau a'r awydd i gael mynediad i Addysg Uwch wneud hynny. Dyna pam bod ein Tim Ehangu Mynediad yn gweithio'n agos gyda chymunedau lleol er mwyn helpu i wella dyheadau ac annog pawb sydd efallai'n meddwl nad yw addysg uwch yn addas iddyn nhw i ddechrau meddwl am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Mae athroniaeth gymunedol neu athroniaeth 'llawr gwlad' yn ymarfer sefydledig lle mae hwylysydd yn defnyddio model o drafodaeth

athronyddol i annog sgwrs grŵp am gwestiynau mawr bywyd. Weithiau gellir cynnwys cyfleoedd i ddysgu am athroniaeth ac athronwyr, ond mae athronyddiaeth gymunedol yn ymwneud llawer mwy â'r broses o 'athronyddu'. Gellir ei ddefnyddio fel adnodd i ddatblygu sgiliau meddwl yn feiriadol, empathi, sgiliau cymdeithasol a hunanymwybyddiaeth. Mae wedi cael ei ddefnyddio yn llwyddiannus i helpu rhai grwpiau i symud i mewn i gymdeithas brif ffrwd - mae hyn wedi cynnwys unigolion proffesiynol elit o'r byd chwaraeon, carcharorion a phobl ag anghenion iechyd meddwl.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Met Caerdydd wedi gweithio gydag Inroads (elusen camddefnyddio cyffuriau a sylweddau), The Wallich

(elusen digartrefedd) ac Ymddiriedolaeth St Giles Cymru (elusen sydd â'r nod o chwalu'r cylch trosedd) i gyflawni'r prosiect. Nod cyffredinol y prosiect oedd archwilio lluniadau athronyddol, sy'n aml yn cael eu hystyried yn elitaidd neu'n rhy ddeallusol, a'u cyflwyno i bobl yn y gymuned. Er y cafodd y sesiynau eu hwylyso gan diwtor ar y dechrau, cafodd cyfranogwyr eu hannog i arwain trafodaethau eu hunain fel y gallent ddatblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen arnynt i gynnal y sesiynau'n annibynnol ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Ein nod allweddol oedd gwneud y prosiect yn gynaliadwy yn y gymuned.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson am alluogi'r prosiect hwn i fynd yn ei flaen - diolch!

# Eich cefnogaeth i gyfleoedd: Entrepreneuriaeth i fyfyrwyr



**"Mae'r profiad cyfan wedi bod yn wych ac mae wedi rhoi dealltwriaeth wirioneddol i mi o sut mae rhedeg busnes bach."**

Gwerthodd Nia Hassett-Rees, myfyriwr Rheoli Busnes ym Met Caerdydd, ei gwaith celf wedi'i uwchgyrchu ym Marchnad Nadolig Caerdydd yn 2014.



Diolch i'ch cefnogaeth, mae'r Gronfa Ddatblygu wedi gallu ariannu dau brosiect drwy Ganolfan Entrepreneuriaeth i Fyfyrwyr Met Caerdydd eleni.

Cafodd y 'Flash Fund' (a gefnogwyd gan eich rhoddion yn 2014 hefyd) £2,000 eleni. Cystadleuaeth micro-ariannu wythnos o hyd yw 'Flash Fund' ac mae'n agored i fyfyrwyr Met Caerdydd o'r pum ysgol academiaidd. Nod y gystadleuaeth yw ymgysylltu â myfyrwyr a graddedigion sydd naill ai wedi dechrau masnachu ar raddfa fach, neu sydd â syniad gwych, ond sydd angen ychydig o help i ddechrau arni.

Cefnogwyd ugain o fyfyrwyr ac roedd eu syniadau busnes llwyddiannus yn amrywiol iawn, o ffasiwn ôl-apocalyptaid, i deithiau bws a chroniclo darluniadol.

Yn aml arian y 'Flash Fund' yw'r sbardun sy'n annog myfyrwyr i fynd o'r cam 'syniad' i'r cam prawf-fasnachu;

**"Mae'r 'Flash Fund' wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu fy musnes. Mae eitemau y mae angen i mi eu prynu o hyd er mwyn symud ymlaen, ond mae'r arian wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ba mor gyflym y mae fy musnes wedi datblygu. Diolch!"**

Gemma Iqbal, myfyriwr sy'n entrepreneur

Cafodd yr ail brosiect £1,000 ac mae wedi galluogi myfyrwyr sy'n entrepreneuriaid i feithrin profiad ymarferol mewn lleoliad go iawn - ar stondin marchnad. Mae wedi rhoi cyfle i fwy o fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau entrepreneuriaidd drwy weithgarwch ymarferol ym marchnadoedd Nadolig, Pasg a haf Caerdydd. Bydd myfyrwyr yn gallu gwerthu eu cynhyrchion, profi'r farchnad, gwirio eu prisiau a derbyn adborth gwerthfawr gan y cyhoedd. Mae cyllid o'ch rhoddion yn golygu nad oes angen i fyfyrwyr dalu ffi er mwyn gwerthu o stondin marchnad, sy'n sicrhau bod y cyfle hwn yn agored i bawb ni waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol.

Mae'r Ganolfan Entrepreneuriaeth i Fyfyrwyr yn gweithio o dan yr ethos 'dysgu drwy wneud'. Mae bwrsariaethau sefydlu cychwynnol gan y 'Flash Fund', ar y cyd â chyfleoedd prawf-fasnachu megis y stondinau marchnad, yn rhoi dealltwriaeth amhrisiadwy i'n myfyrwyr o'r ffactorau ymarferol sy'n gysylltiedig â rhedeg busnes.

Diolch am alluogi'r prosiectau gwych hyn i barhau eleni - rydych yn cefnogi entrepreneuriaid y dyfodol!

# Eich cefnogaeth i waith ymchwil: Ffibrosis Cystig

Mae gan Adran Gwyddorau Biomeddygol Met Caerdydd Dim Ymchwil i Ficrobioleg a Heintiau pwrpasol. Dros y blyneddau mae eu gwaith, sydd wedi ennill gwobrau, wedi cael cefnogaeth hael gan ymddiriedolaethau elusennol a chyn-fyfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae un ardal benodol o'u gwaith sy'n cael ei gefnogi gan roddion yn ymwneud â lleihau haint yr ysgyfaint mewn cleifion sydd â Ffibrosis Cystig.

Yn rhifyn 9 Gorwelion, gwelsom Dr Rowena Jenkins a Dr Helen Brown yn ymchwilio i'r defnydd o fêl Manwca er mwyn rheoli'r bacteria sy'n gysylltiedig â Ffibrosis Cystig ac ers hynny maent wedi derbyn canlyniadau data addawol. Nawr diolch i gefnogaeth rhoddion gan gyn-fyfyrwyr drwy'r Gronfa Ddatblygu, mae Dr Jenkins a Dr Brown hefyd wedi gallu archwilio'r posibilrwydd o ymysu ac adnabod cyfansoddion gwrthficrobaidd newydd o ffynonellau naturiol eraill, megis deunyddiau planhigion. Maent

wedi bod yn gwneud cynnydd gwych ac yn ddiweddar maent wedi ymysu ffraciwn actif o ffynhonnell naturiol, sydd ag effeithiolrwydd gwrthfotig yn erbyn sawl bacteria sy'n gysylltiedig â Ffibrosis Cystig.

Yn y pen draw, nod eu hymchwili yw datblygu cyfansoddion a fformiwleiddiadau newydd i'w defnyddio gyda Ffibrosis Cystig a heintiau bacteriol eraill, gan wella bywydau cleifion a'u rhagolygon hirdymor.

# Eich cefnogaeth i adnoddau myfyrwyr: llyfrgelloedd Met Caerdydd

Diolch i'r holl roddion gan gyn-fyfyrwyr a staff sy'n cyfeirio eu cefnogaeth at llyfrgelloedd Met Caerdydd, rydym wedi llwyddo i wella ein casgliad o eLyfrau ar amrywiaeth o bynciau sy'n cefnogi ein myfyrwyr a'n staff academiaidd yn uniongyrchol.

Mae cynllun eLyfr yn dilyn model 'Caffael wedi'i Lywio gan Noddwr', sy'n galluogi defnyddwyr y llyfrgell i weithio mewn partneriaeth â'r llyfrgell a dewis y cynnwys sydd fwyaf perthnasol i'w hanghenion ymchwil. Mae llwyfan e-Lyfr yn golygu y gall ein llyfrgellwyr ddewis casgliad eang o eLyfrau (mwy nag y

byddent fel arfer yn eu prynu'n uniongyrchol) a sicrhau eu bod ar gael i ddefnyddwyr bori drwyddynt o fewn catalog y llyfrgell. Dim ond am eLyfrau sy'n cael eu defnyddio'n aml y codir tâl ar y llyfrgell, ac maent ar gael i ddefnyddwyr y llyfrgell ar unwaith.





Golygfa o fynediad y neuadd chwaraeon newydd.

# Newyddion diweddaraf am yr Apêl Codi Arian:

## Datblygiadau Campws Cyncoed

Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol ein bod wedi bod yn codi arian i gefnogi rhai datblygiadau newydd ar Gampws Cyncoed. Mae Met Caerdydd yn ceisio diogelu ei rhaglenni chwaraeon ar gyfer y 18,000+ o blant a phobl ifanc sy'n defnyddio ei chyfleusterau bob blwyddyn, drwy gynllun aiddatblygu mawr ar gyfer ei chyfleusterau chwaraeon. Cyda'r rhoddion a

dderbyniwyd eisoes gan Sefydliad Garfield Weston, cyn-fyfirwyr ac ymddiriedolaethau elusennol eraill, bydd y prosiect yn trawsnewid y cyfleusterau o'r 1970au dros dair blynedd. Mae'r gwaith arfaethedig yn cynnwys neuadd chwaraeon newydd, pwll nofio newydd yn lle'r hen un, trac rhedeg a maes 3G awyr agored newydd a gwelliannau i'r Ganolfan Athletau Dan Do.

Yn ystod y tymor, mae dros 2,500 o blant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau bob wythnos ar Gampws Cyncoed. Bydd y cyfleusterau newydd hyn yn darparu profiad gwych i'n cymuned leol, plant yn enwedig, a fydd yn helpu i annog hoffter gydol oes o chwaraeon yn ein barn ni.





# Diwrnodau Ymwybyddiaeth y Byd

Bydd rhai ohonoch wedi bod yn derbyn ein negeseuon e-bost sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am yr effaith y mae Met Caerdydd wedi bod yn ei chael mewn ystod o feysydd ar Ddiwrnodau Ymwybyddiaeth y Byd. Yn ystod y

flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar ystod o faterion iechyd megis Malaria, Diabetes a Chanser - rydym yn helpu i fynd i'r afael â phob un ohonynt drwy ymchwil drawsnewidiol. Mewn sawl achos, ni fyddai'r gwaith ymchwil

hwn yn bosibl heb y rhoddion rydym yn eu derbyn. Os nad ydych wedi derbyn y rhain, gwnewch yn siŵr bod gennym eich cyfeiriad e-bost cywir drwy ddiweddarau eich manylion yn [www.cardiffmet.ac.uk/updateyourdetails](http://www.cardiffmet.ac.uk/updateyourdetails)



## Cronfa Caledi Myfyrwyr

Gyda chostau byw yn cynyddu, bydd llawer o fyfyrwyr yn wynebu argyfwng ariannol difrifol ar ryw adeg yn ystod eu hastudiaethau. Mae Cronfa Caledi Myfyrwyr Met Caerdydd yn fwy pwysig nawr nag erioed. Mae dros flwyddyn wedi mynd heibio bellach ers i ni lansio ein hapêl ar gyfer y Gronfa Caledi

Myfyrwyr ac rydym wedi ein syfrdanu gan eich ymateb. Mae bron i 200 o gyn-fyfyrwyr a staff wedi cofrestru i roi yn rheolaidd bob mis i gefnogi'r Gronfa Caledi Myfyrwyr. Defnyddir y gronfa i greu bwrsariaethau argyfwng ar gyfer myfyrwyr sydd mewn argyfwng ariannol uniongyrchol;

mae'n gwneud gwahaniaeth chwyldroadol i'n myfyrwyr mwyaf difreintiedig. Dengys tystiolaeth bod y cronfeydd ychwanegol hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau yn hytrach na gorfod rhoi'r gorau iddynt oherwydd problemau ariannol.

***“Ar ran y myfyrwyr sy'n cael cymorth a'r staff sy'n eu cefnogi, diolch yn fawr iawn i bawb sy'n rhoi - rydych yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.”***

Karen Robson (Deon Myfyrwyr Dros Dro)





# Ein Cefnogwyr

Hoffai Prifysgol Metropolitan Caerdydd ddiolch i'r holl gyn-fyfyrrwyr, staff, ffrindiau a sefydliadau am eu haelioni dros y 12 mis diwethaf. Trwy gefnogaeth ddyngarol gall y Brifysgol barhau i fod yn wirioneddol flaengar.

Mae'r enwau mewn print trwm yn dynodi aelodau o staff Met Caerdydd.

## Unigolion

Abbey Abbass  
 Emma Adamson  
 David Aldous  
 Jack Allen  
 Deborah Alsop  
 David Alvarez  
 Mohammad Amin  
 Pauline Andam  
 Neil Anderson  
 Claire Andrews  
 Maureen Angell-Rees  
 Charlotte Arundel  
 Karianne Backx  
 Adam Bailey  
 Rebecca Bailie  
 Emma Baker  
 David Banks  
 Barbara Barnes  
 Janet Beauchamp  
 David Benson  
 Ethne Biggs  
 Bronwen Blatchford  
 Helen Blockwell  
 Nicola Bolton  
 Susan Bowcott  
 Timothy Brierley  
 David Brooksbank  
 Jane Brown  
 Sarah Brown  
 Anna Bryant  
 Denise Buckley  
 Charlotte Bull  
 Esther Burke  
 Helen Dale Burton  
 Margaret Cameron  
 Helena Cannon  
 John Cappock

William Carew-Gibbs  
 Sophie Carpenter  
 Gavin Cawood  
 Antony Chapman  
 Luke Chatterton  
 Linda Chidgey  
 David E Cobner  
 Patricia Cole  
 Robert Coles  
 Debbie Cooke  
 Louise Coombs  
 Lisa Corcoran  
 John Counsel  
 Helen Crotty  
 Robert Cummings  
 Osk Danielsdottir  
 Daniel Davies  
 Jason Davies  
 Katie Davies  
 Louise Davies  
 Lynn Davies CBE  
 Philip Davies  
 Fiona Diffey  
 Anthony Dilloway  
 Jane Dorrian  
 Michelle Doyle  
 James Driscoll  
 Gerry Duckworth  
 Michael Dunn  
 Jeffrey Edgson  
 Gareth Edwards CBE  
 Sian M Edwards  
 Colin Elliott  
 Peter Ellis  
 Maria Etifit  
 Edryd I Evans  
 Jacqueline Evans  
 Jill Evans

Paul Evans  
 Sheona Evans  
 Rhydian Fairfax  
 Ashley Finn  
 Paul Fitzpatrick  
 Laura Flounders  
 Andrea Flower  
 Ruth Foster  
 Michael Fountain  
 Janette Francis  
 Kathryn Francis  
 David Garwood  
 Sarah Garwood  
 Chetan Geisel  
 Marcia Gilbert  
 Jennifer Godfrey  
 Sally Grant  
 Matthew Green  
 Teresa Green  
 Louise Griffin  
 Barrie Griffiths  
 Gwyn Griffiths  
 Megan Griffiths  
 Peter Griffiths  
 Alison Grosvenor  
 Jamie A Grundy  
 Katherine Gullett  
 Cecilia Hannigan-Davies  
 Andrew K Hardwick  
 Jacqui Hare  
 Gordon Harrhy  
 Gillian M Harris  
 Catherine Harrison  
 Elizabeth Hayes  
 Sally Hicks  
 Anthony Hile  
 Kristina Hillebert  
 Isabel Hitchman


Naomi Hobbs  
 John Hodge  
 David Hollisey-Mclean  
 Kay Howells  
 Robert Hudson  
 Ben S Hughes  
 Huw Merfyn Hughes  
 Jenine Hughes  
 Barbara Hunter  
 Anthony James  
 Gary James  
 Gwawr James  
 John Jenkins  
 Samuel Jenkins  
 Christopher Jennings  
 Don Jessett  
 Vicki Johansen  
 Gareth Johns  
 Amelia Johnstone  
 Angela Jones  
 Ann Jones  
 Anthony Julian Jones  
 Clare Jones  
 Georgina Jones  
 Helen Jones  
 Lynsey Jones  
 Nathan Jones  
 Neil Jones  
 Nina Jones  
 Rowan Jones  
 Paul Keetch  
 Janet Keggie  
 Fahmin Khanum  
 Keisha Kirby  
 Josephine Anne Knell  
 Chrisoula Konstantakou  
 Christopher M Lander  
 Ceri Landers

Simon Landy  
Janet Lane  
Janice Lawrence  
**Thomas Peter Learoyd**  
**Sophie Leslie**  
Daniel Lewis  
Gillian Lewis  
Joanne Lewis  
Margaret Lewis  
Timothy Leyshon  
Rachel Lintell  
**David Llewellyn**  
Carole Lloyd  
Elaine Lloyd  
Rhodri Lloyd  
Teresa Lloyd  
Julie Lockwood  
Elizabeth Loly  
Julia Longville  
Vernon Luxmikanthan  
**Amanda Lynch**  
Margaret Lynn  
Claire Maddern  
**Lowri Mainwaring**  
Ifan Marklew  
John Marsden  
**Ian Mathieson**  
Margaret Matthews  
Owen May  
David R Maylor  
**Samantha McAlister  
Wilson**  
**Fiona McKenzie**  
Mike McNamee  
**Victoria Meah**  
Lynne Melia  
Maurice Melia  
Malcolm Miles  
**Carla Morgan**  
**Georgina Morgan**  
Julia Morgan  
Sarah Morgan  
**Keith Morris**  
**Tracey Morris**  
**Olwen Moseley**  
**Rhiannydd Mounter**  
Helen Murphy  
Gary Newman  
**Peter O'Donoghue**

**Allison O'Reilly**  
Eddie Owen  
Kathryn Owen  
Stella Owen  
Caroline Page  
**Kirsty Palmer**  
**Elaine Parke**  
**Judith Paterson**  
Genine Peacock  
**Cathy Pearce**  
**Jennifer Pearce**  
Catherine Pepin  
Dennis Perrott  
**Thomas Petchey**  
**Adrian Peters**  
Steven Phelan  
Sarah Philpott  
**Nicola Poole**  
**Abbie Pople**  
**Lloyd Powell**  
**David Price**  
**Sarah Price**  
**Amie-Louise Prior**  
John Pugh  
**Marc Randall**  
**Linda Rathkey**  
Christine Rees  
Gillian Rees  
Stuart Rees  
Anthony Richards  
**Victoria Richards**  
Richard Roberts  
**Hayley Rogers**  
**Natalie Romero**  
**Sarah Rose**  
Rosemary Rowland  
Mary Rumbold  
**Clare Sandbrook**  
**Lalage Sanders**  
**Debbie Savage**  
**Tim J Savage**  
Peter Scammell  
James Scott  
Paras Shah  
**Janette Shaw**  
Kevin Shore  
Ceri Sinderby  
**Deiniol Skillicorn**  
Stuart J Skriabin

**Alice Sockett**  
Stephanie Songhurst  
James Stanley  
Philip J Steele  
Beverley Steer  
**Amy Stephens**  
Barrie Stephens  
Janet Stroud  
Andrew Sydenham  
Catherine Talbot  
**Susan Tangney**  
Amelia Taylor  
**Angharad Taylor**  
Chris Taylor  
**Edward Taylor**  
Jeff Taylor  
**Matthew Taylor**  
Howard Tear  
**Emma Thayer**  
Eirian A Thomas  
Gerry Thomas  
**Natalie Thomas**  
Rachel Thomas  
**Richard Tong**  
Ann Tonge  
**Rebecca Tooser**  
Kerry Townley  
James Tranter  
**Alison Twyman**  
Sheila Uppington  
Garry Veale  
Gethin Vobe  
**Andrew Walker**  
Dale Walker  
Frances Walker  
**Andrew Walters**  
**Emma Walters**  
Andrew A Ward  
Mick Ward  
Alex Waring  
**Sharne Watkins**  
Deborah Weids  
**Ian Weir**  
**Joseph Wells**  
**Anne Welsh**  
Kate Welsh  
**Kathryn Wheeler**  
Sally-Anne White  
Sharon Whyte

Robert Wilcock  
Brian Williams  
Carol Williams  
**Carwyn Williams**  
Gail P Williams  
John Williams  
**Amy Williams-Pring**  
Sharon Willis  
**Emma Wiltshire**  
Chantal Wood  
**Christopher Young**  
**Janet Young**  
**Ina Zuncke**  
**65 Anonymous Donors**  
**Sefydliadau**  
Abbott Nutrition  
Austin-Smith: Lord LLP  
Blake Morgan LLP  
Campus Clothing  
Ede & Ravenscroft  
Effective Communication  
Fairwood Trust  
Garfield Weston  
Foundation  
Glen Group  
Hospital Innovations  
Lord Forte Foundation  
Phil Boorman Photography  
Princes Gate  
Spring Water  
Rotary Club of Llandaff  
SA Brain & Co Ltd  
Santander UK plc  
Savoy Educational Trust  
Semaphore Display  
Simon Gibson  
Charitable Trust  
Sodexo  
Spire Healthcare  
T. A. Roden LTD  
The Fenton Arts Trust  
The Jane Hodge  
Foundation  
The Maltings Limited  
The Waterloo Foundation  
TWL Voice and Data  
VINCI Park Sevices UK Ltd  
Willmott Dixon  
Construction  
Zenith Media



*Rhoi  
Addysg  
Dyfodol  
Rhodd yn  
eich ewyllys*

Gall rhodd addysg newid bywyd. Gyda'ch help chi, gallwn newid bywydau gyda'n gilydd.

Ar ôl gofalu am eich teulu a'ch ffrindiau, ystyriwch adael rhodd yn eich ewyllys i gefnogi Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Bydd eich cefnogaeth yn rhoi cyfle am ddyfodol gwell.

Wyddech chi, drwy adael 10% o'ch ystâd drethadwy i elusen, y gallech gynyddu'r swm y bydd eich buddiolwyr eraill yn ei gael? Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar adael rhodd yn eich ewyllys i'n cefnogi ni, cysylltwch â'r Rheolwr Datblygu ar **029 2020 1590**

**or [developmentoffice@cardiffmet.ac.uk](mailto:developmentoffice@cardiffmet.ac.uk)**

**[www.cardiffmet.ac.uk/supportus](http://www.cardiffmet.ac.uk/supportus)**

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1140762